

**Cefn Carnau Uchaf  
Thornhill  
Caerffili  
CF83 1LY**

**Adroddiad Arolygu 2010-2011**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Tŷ Bevan  
Parc Busnes Caerffili  
Heol y Fan  
CAERFFILI  
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 029 20 928850  
**Ebost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 029 20 928877  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)



Dyddiad Arolygu:	Rheolwr Arolygu:
29 Mawrth 2011	Mr John Powell

## Cyflwyniad

Mae'n rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru fod wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). AGIC sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru sydd, yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi'u dynodi fel yr awdurdod cofrestru.

I gofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos cydymffurfiad â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae AGIC yn profi cydymffurfiad darparwyr trwy asesu pob asiantaeth a sefydliad cofrestredig yn erbyn cyfres o '*Safonau Gofynnol Cenedlaethol*', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau iechyd annibynnol. Gellir gweld mwy o wybodaeth ynglŷn â'r safonau a'r rheoliadau ar ein gwefan:

**[www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)**

Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad hwn yw adlewyrchu canfyddiadau'r digwyddiad arolygu. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser.

## Cefndir a'r Prif Ganfyddiadau

Cynhaliwyd arolygiad dirybudd yng Nghefn Carnau Uchaf ar 29 Mawrth 2011 gan reolwr arolygu, dau adolygydd gofal iechyd annibynnol, ac un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl. Cofrestrwyd yr ysbyty am y tro cyntaf ym mis Mehefin 1999, ac ar hyn o bryd, mae wedi ei gofrestru i gynig llety i 22 o gleifion ar ddwy ward ar wahân.

Mae ward Sylfaen wedi ei chofrestru i gynig llety i wyth o fenywod 18 mlwydd oed a hŷn sydd wedi cael diagnosis sylfaenol o anabledd dysgu ac a allai gael eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Yn ogystal, mae ward Bryntirion wedi ei chofrestru ar gyfer hyd at bedwar ar ddeg o ddynion 18 mlwydd oed a hŷn sydd wedi

cael diagnosis sylfaenol o anabledd dysgu ac a allai gael eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Craegmoor Hospitals Limited yw perchennog yr ysbyty.

Yn rhan o'r broses arolygu, cyflwynodd y darparwr cofrestredig ffurflen hunanasesu wedi ei llenwi ac amrywiaeth eang o ddogfennau ategol i ddangos sut y mae'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar ddadansoddi amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys archwilio cofnodion cleifion a thrafod gyda'r rheolwr sydd newydd ei benodi, y rheolwr busnes ac amrywiaeth o aelodau staff sy'n gweithio yn yr ysbyty. Cyfwelwyd nifer o gleifion yn ogystal, ac mae'r sylwadau a gafwyd gan gleifion ac aelodau'r staff wedi eu defnyddio yn yr adroddiad hwn.

O ran prif ganfyddiadau'r arolygiad, roedd y darparwr cofrestredig wedi sefydlu'r canlynol:

- Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion, ond roedd angen diwygio'r ddwy ddogfen hon er mwyn adlewyrchu'n gywir strwythur y sefydliad a'r amrywiaeth o driniaethau a gwasanaethau eraill a ddarperir yn y sefydliad.
- System ar gyfer cadw dogfennau gofal a oedd yn cynnwys manylion derbyn y cleifion ac amrywiol asesiadau, asesiad risg a chynllun rheoli risg, ac amrywiaeth o gynlluniau gofal. Fodd bynnag roedd nifer sylweddol o'r cynlluniau gofal nad oeddent wedi eu llofnodi gan y tîm amlddisgyblaethol, ac nid oedd dogfennau'r archwiliadau iechyd blynyddol yn gyflawn ar gyfer un claf. Nid oedd dyddiadau adolygu wedi'u nodi ychwaith ar gyfer rhai o'r cynlluniau gofal. Hefyd, roedd y rhestr wirio a ddefnyddiwyd wrth dderbyn un claf yn cyfeirio at ysbyty gwahanol, ac mae'n amlwg y dylid bod wedi llenwi rhestr newydd pan oedd y claf yn cael ei dderbyn i Gefn Carnau. Roedd diffyg tystiolaeth i ddangos yr ystyrir barn y cleifion am eu gofal a'u triniaeth, gan gynnwys cofnodi'n llawn y drefn o roi meddyginiaeth, y sgil-ffeithiau a'r risgiau hysbys, a'u hegluro i'r cleifion. O ystyried y meysydd a nodwyd uchod, mae angen cynnal archwiliad trylwyr o holl ddogfennau'r cleifion.

- Amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau gyda dyddiad eu llunio a'u hadolygu wedi eu nodi arnynt. Fodd bynnag, gwelwyd dystiolaeth nad oedd nifer sylweddol o'r staff wedi llofnodi i ddatgan eu bod wedi darllen a deall y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd yn berthnasol i'w maes gwaith.
- Roedd rhaglen hyfforddi staff wedi ei sefydlu a oedd yn ymdrin â sawl pwnc, megis rheoli heintiau, cefnogi ymddygiad mewn modd cadarnhaol, codi a chario, trais ac ymddygiad ymosodol, ymwybyddiaeth o awtistiaeth, anhwylder personoliaeth, nwyon meddygol, gwythïen-bigiadau, ac Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (PoVA). Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o aelodau'r staff nad oeddent wedi dilyn hyfforddiant ar amddiffyn plant, ystyr cwyn, a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion. Yn ogystal, nid oedd y staff wedi dilyn hyfforddiant diweddar ar dechnegau ataliad ac ymyrraeth gorfforol.
- Roedd rhai gweithgareddau/therapïau yn cael eu cynnig, gan gynnwys celf a chrefft, coginio, llythrennedd, cerddoriaeth, cyllidebu, technoleg gwybodaeth, sgiliau bywyd annibynnol, ymwybyddiaeth o berthynas ag eraill a'r teulu, cerdded a siopa. Roedd yr adeilad a arferai gynnwys y pwll nofio wedi ei weddnewid a'i adnewyddu'n helaeth i ddarparu amrywiaeth eang iawn o ystafelloedd gweithgareddau/therapïau, gan gynnwys campfa, ystafell technoleg gwybodaeth, ystafell ymlacio, a chegin lawn o offer. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth a welwyd ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu i ddangos bod y cleifion yn defnyddio'r man hwn mewn gwirionedd.
- Cafodd nifer o feysydd eu harchwilio, gan gynnwys meddyginiaeth, iechyd a diogelwch, dadebru, a rheoli risgiau. Roedd asesiad risg wedi ei gynnal ynglŷn â manau clymu, yn rhan o'r broses rheoli risg. Nodwyd nifer o feysydd yn dilyn yr asesiad, ond roedd yn aneglur o'r ddogfen a ddarparwyd pa rai o'r meysydd hynny a oedd wedi derbyn sylw. Yn ogystal, ni ellid cadarnhau bod y rhaglenni archwilio yn cynnwys y canlynol: monitro gwaith ambroffesiynol mewn timau iechyd meddwl, monitro cyfraniadau ambroffesiynol at gofnodion clinigol, graddau ac ansawdd y cysylltiad uniongyrchol rhwng y staff a'r cleifion, y defnydd o wybodaeth gymharol o ran canlyniadau clinigol, a gwerthuso o gymharu â chanfyddiadau gwaith ymchwil ac arfer wedi ei seilio ar dystiolaeth.

Roedd arolygon cleifion yn cael eu cynnal bob blwyddyn, ac roedd dadansoddiad o'r canlyniadau ar gael.

Gwelwyd tystiolaeth eglur i ddangos y rhoddir ystyriaeth i ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) wrth reoli cyflyrau penodol cleifion.

O ran canfyddiadau eraill yr arolygiad, roedd adborth gan y cleifion ynglŷn ag agwedd y grŵp staff a'r cymorth ganddynt yn gadarnhaol iawn. Roedd yr adborth hefyd yn dangos bod y cleifion yn teimlo'n ddiogel, a'i bod yn amlwg fod perthynas dda yn bodoli rhwng y cleifion a'r staff.

Roedd y lefelau staffio yn yr ysbyty yn annigonol ar ddechrau'r ymweliad arolygu, gan mai dim ond un nyrs gofrestrdig, a'r rheolwr a oedd newydd ei benodi, oedd ar ddyletswydd. O ystyried mai newydd ddechrau gweithio yn ddiweddar yr oedd y rheolwr, roedd yn siomedig nodi ei fod yn cael ei ddefnyddio i fod yn gyfrifol am ward yn absenoldeb nyrsys cofrestredig. Roedd yn ymddangos hefyd fod diffyg cyfraniad ym maes seicoleg, therapi galwedigaethol a gwaith cymdeithasol ar gyfer cleifion yn y sefydliad.

Roedd achosion o ymyrraeth ac ataliad corfforol ar gyfer y cleifion yn cael eu cofnodi, ac roedd lle ar gael ar y ffurflenni i'r rheolwr lofnodi i gadarnhau ei fod wedi cynnal archwiliad cychwynnol o'r digwyddiad. Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o'r ffurflenni nad oeddent wedi eu llofnodi gan y rheolwr.

Roedd gwasanaeth eirioli ar gael, roedd eiriolwr yn ymweld â'r ysbyty yn aml, ac roedd gwybodaeth am y gwasanaeth wedi ei harddangos ar y wardiau. Roedd y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion wedi ei harddangos ar y gwahanol wardiau. Roedd y darparwr cofrestredig wedi bod yn cadw cofnodion llawn a manwl ynglŷn â natur y gŵyn a'r canlyniad.

Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael am hawliau cleifion a gedwir yn gaeth dan Ddeddf lechyd Meddwl 1983, ac roedd amrywiaeth o daflenni ar gael hefyd ynglŷn â'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir yn y sefydliad.

Roedd y gwasanaeth arlwyo ar gyfer y cleifion yn cynnig dewis ac amrywiaeth o brydau bwyd, a defnyddir cylch o wahanol fwydlenni. Roedd ffrwythau a diodydd twym ar gael trwy gydol y dydd. Roedd nifer o gyfleusterau oeri dŵr ar gael ond roedd y rhain wedi eu lleoli yng ngheginau'r wardiau a'r rheiny wedi eu cloi, ac nid oedd unrhyw gwpanau plastig ar gael. O ganlyniad, cyfyngir ar allu'r cleifion i gael gafael ar ddŵr ffres. Roedd y cleifion yn defnyddio'r llyfr pwrpasol i roi eu sylwadau am y bwyd ar bob un o'r wardiau, ac roeddent yn cael siarad yn uniongyrchol â'r staff arlwyo pe byddai unrhyw broblemau.

O ran rheoli meddyginiaethau, cafwyd cipolwg ar y systemau ar gyfer archebu, cadw, defnyddio, a chael gwared ar feddyginiaethau. Roedd cyflenwad cyfyngedig o *'Gyffuriau Rheoledig'* yn cael ei gadw yn y sefydliad, ar roedd Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain dyddiedig mis Mawrth 2011 ar gael fel ffynhonnell gyfeirio berthnasol. Roedd cofnod meddyginiaeth yn cael ei gadw ar gyfer pob un o'r cleifion, ond nid oedd y rhagnodwr wedi llofnodi'r nodiadau. Yn ystod yr ymweliad arolygu, nid oedd y troli meddyginiaeth wedi cael ei gysylltu wrth y wal ar ward Sylfaen. Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar gael yn y sefydliad yn glŷn â rheoli meddyginiaethau.

O ran firysau a gludir yn y gwaed, ni ellid cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael brechiad priodol yn erbyn Hepatitis B.

Roedd amrywiaeth o offer argyfwng ar gael, ac roedd aelodau'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r diffibriliwr a'r nwyon meddygol.

O ran yr amgylchedd, roedd tair ward ar wahân ar gael - un ar gyfer y menywod a dwy ar gyfer y dynion. Nid oedd digon o le ar gael ar gyfer y cleifion yn y wardiau yn gyffredinol, ac roedd hon yn broblem arbennig ar y ward ar y llawr cyntaf. Yn ogystal, roedd y wardiau yn dal i fod angen rhywfaint o waith ailaddurno ac adnewyddu, ac roedd angen adolygu'r offer sy'n atal ffenestri rhag agor yn llawn, er mwyn sicrhau eu bod yn addas. Roedd eiddo personol y cleifion i'w weld yn yr ystafelloedd gwely, ond nid oedd nifer o'r ffitiadau yn rhai pwrpasol nad oes modd eu defnyddio fel manau clymu. Hefyd, roedd nifer sylweddol o risgiau o ran manau clymu yn yr ystafelloedd ymolchi, ac er hynny wedi ei gofnodi yn yr asesiad risg o

ran manau clymu, ni roddwyd digon o sylw i'r risgiau hynny. Nid oedd y ffaniau echdynnu yn gweithio mewn nifer o'r tai bach, ac roedd aroglau annymunol yn amlwg yn y manau hyn. Nid oedd y teledu yn y llofa ar y llawr cyntaf yn gweithio ers nifer o ddyddiau, ac o ganlyniad, nid oedd teledu wedi bod ar gael i'r cleifion. Dywedwyd wrth y rheolwr arolygu na ellid cael un arall yn ei le nes i uwch reolwr yn y sefydliad gytuno ar y mater, ac roedd i ffwrdd ar ei wyliau. Roedd yr adeilad a arferai gynnwys y pwll nofio wedi ei weddnewid a'i adnewyddu'n eang i ddarparu ystod eang iawn o ystafelloedd gweithgareddau/therapïau. Fodd bynnag, nid oedd offer wedi eu gosod ar y ffenestri yn yr adeilad hwn i'w hatal rhag agor yn llawn. Roedd yr ardd y tu allan yn hyfryd iawn, ac roedd nifer o fannau penodol ynddi at ddefnydd y cleifion, ond nid oedd yn darparu'r man diogel fel sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r safonau ar gyfer llety diogelwch isel.

Hoffai'r rheolwr arolygu ddiolch i'r rheolwr busnes, rheolwr yr ysbyty, aelodau'r staff a'r cleifion am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad arolygu.

## **Cyflawniadau a Chydymffurfiad**

Roedd wyth gofyniad rheoliadol wedi eu nodi yn yr adroddiad arolygu blaenorol. Derbyniwyd cynllun gweithredu ac roedd pump o'r gofynion rheoliadol wedi derbyn sylw. Roedd y gofynion nad oeddent wedi derbyn sylw yn ymwneud â dogfennau gofal, ac mae'n rhaid adolygu'r rhain a sicrhau bod tystiolaeth ddogfennol ar gael i ddangos bod cleifion a theuluoedd yn cael eu cynnwys. Roedd angen gwneud gwaith adnewyddu, ailaddurno ac atgyweirio mewn sawl man yn y sefydliad, ac roedd angen cynnal adolygiad brys o handlenni'r ffenestri'r ystafelloedd gwely a manau clymu eraill ym mhob rhan o'r ysbyty.

O ran llwyddiannau, roedd yr adeilad a arferai gynnwys y pwll nofio wedi ei weddnewid a'i adnewyddu'n eang i ddarparu ystod eang iawn o ystafelloedd gweithgareddau/therapïau gan gynnwys campfa, ystafell technoleg gwybodaeth, ystafell ymlacio a chegin iawn o offer.



## Mathau o Gofrestriad

Caniateir y cofrestriad hwn yn unol â'r math o wasanaeth a ddarperir. Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y math canlynol o wasanaeth:

Disgrifiad
<b>Ysbyty annibynnol â gwelyau dros nos sy'n darparu triniaeth feddygol ar gyfer iechyd meddwl (gan gynnwys cleifion a gedwir yn gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983).</b>

Mae'r cofrestriad hwn yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol. Archwilir pob amod ar gyfer cydymffurfiad. Disgrifir y dyfarniad fel bod yn Cydymffurfio, Ddim yn Cydymffurfio neu Sicrwydd Annigonol.

Rhif yr Amod	Amod y Cofrestriad	Dyfarniad
1.	<p>Ni chaiff nifer yr unigolion sy'n derbyn llety yn y sefydliad ar unrhyw un adeg fod yn fwy na 22 (dau ar hugain), fel y nodir isod:</p> <p>a) <b>Uned Sylfaen</b></p> <p>Gwasanaeth diogelwch isel ar gyfer hyd at 8 (wyth) o fenywod 18 mlwydd oed a hŷn sydd wedi cael diagnosis sylfaenol o anabledd dysgu ac a allai gael eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.</p> <p>b) <b>Uned Bryntirion</b></p> <p>Gwasanaeth diogelwch isel ar gyfer hyd at 14 (pedwar ar ddeg) o ddynion 18 mlwydd oed a hŷn sydd wedi cael diagnosis sylfaenol o anabledd dysgu ac a allai gael eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.</p>	Cydymffurfio
2.	<p>Ni chaiff yr unigolyn cofrestredig dderbyn y categorïau canlynol o gleifion na chynnig llety iddynt:</p> <p>c) Unigolion dan 18 mlwydd oed. ch) Unigolion nad oes angen gofal a thriniaeth arnynt ar gyfer eu hanabledd dysgu / anhwylder meddwl mewn amgylchedd ysbyty diogel.</p>	Cydymffurfio

Rhif yr Amod	Amod y Cofrestriad	Dyfarniad
	<p>d) Unigolion y mae arnynt angen gofal a thriniaeth dan amgylchiadau diogelwch canolig neu ddiogelwch uchel.</p> <p>dd) Unigolion sydd wedi cael diagnosis sylfaenol o gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol.</p> <p>e) Unigolion sydd â salwch neu anabledd corfforol difrifol, gan gynnwys y rhai hynny y mae angen iddynt ddefnyddio cadair olwyn.</p>	
3.	<p>Darperir y lefelau staffio gofynnol ar gyfer y sefydliad fel y'u nodir yn y Datganiad o Ddiben (fersiwn 4) a gymeradwywyd gan Julian Spurling, dyddiedig mis Awst 2008. Mae'n rhaid darparu lefelau staffio ychwanegol fel sy'n ofynnol, mewn niferoedd sy'n briodol ar gyfer bodloni anghenion iechyd a lles y cleifion.</p>	<p>Ddim yn cydymffurfio</p> <p><b>Nid</b> oedd y lefelau staffio ar gyfer y sefydliad wedi eu darparu fel y'u nodir yn y Datganiad o Ddiben diweddaraf, fersiwn 6, dyddiedig mis Hydref 2010.</p>
4.	<p>Mae'n rhaid i nyrs gofrestredig (Nyrs Gofrestredig Iechyd Meddwl neu Nyrs Gofrestredig Anabledd Dysgu sydd wedi ei chofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth) fod yn bresennol ar bob un o'r unedau bob amser pan fo cleifion yn bresennol.</p>	Cydymffurfio
5.	<p>Mae'n rhaid i'r unigolion cofrestredig sicrhau y penodwyd Uwch Nyrs Gofrestredig sydd â phrofiad priodol (Iechyd Meddwl neu Anabledd Dysgu sydd wedi ei chofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth) i swydd y nyrs arweiniol. Swyddogaeth y '<i>Nyrs Arweiniol</i>' fydd darparu cyngor clinigol a phroffesiynol i'r Rheolwr Cofrestredig a'r staff nyrsio yn y sefydliad.</p>	Cydymffurfio
6.	<p>Mae'n rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig a'r Nyrs Arweiniol fod yn swyddogion ychwanegol, a rhaid iddynt beidio â chael eu cynnwys yn y lefelau staffio gofynnol ar gyfer y sefydliad.</p>	Cydymffurfio

**Mae angen cymryd y camau canlynol pan ystyrir na chydymffurfir ag amod neu fod sicrwydd annigonol i wneud y penderfyniad hwnnw.**

Rhif yr Amod	Canfyddiadau a chamau gofynnol	Amserlen
3.	<p><b>Canfyddiadau:</b></p> <p><b>Nid</b> oedd y lefelau staffio ar gyfer y sefydliad wedi eu darparu fel y'u nodir yn y Datganiad o Ddiben diweddaraf, fersiwn 6, dyddiedig mis Hydref 2010.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y lefelau staffio ar gyfer y sefydliad yn cael eu darparu fel y'u nodir yn y Datganiad o Ddiben diweddaraf, fersiwn 6, dyddiedig mis Hydref 2010.</p>	Yn ddi-oed ac yn barhaus.

## Asesiadau

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnal archwiliadau o safleoedd er mwyn asesu safonau. Pe byddem yn canfod meysydd lle nad yw'r darparwr yn bodloni'r safonau gofynnol neu lle nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau, neu nad oes gennym ddigon o dystiolaeth i ddangos y cyflawnir y lefel ofynnol o berfformiad, rhoddir gwybod i'r unigolyn cofrestredig am hyn drwy gyfrwng yr adroddiad arolygu hwn. Gall fod achlysuron hefyd pan ganfyddir methiannau mwy difrifol neu sydd angen sylw di-oed, ac efallai bod yr unigolyn cofrestredig hefyd wedi'i hysbysu ynglŷn â'r canfyddiadau a'r camau sydd i'w cymryd trwy lythyr, ond bydd y materion hynny hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad arolygu hwn. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn penderfynu ar yr angen i arolygu'r sefydliad a pha mor aml y dylid gwneud hynny ar sail y wybodaeth a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani ers cynnal yr arolygiad diwethaf. Cyn cynnal arolygiad, bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried y wybodaeth sydd ganddi am unigolyn cofrestredig. Gallai hyn gynnwys: hunanasesiad yn erbyn y safonau, canfyddiadau'r adroddiad arolygu blaenorol ac unrhyw gynllun gweithredu a gyflwynwyd, adroddiadau ynglŷn ag ymweliadau'r darparwr, y Datganiad o Ddiben ar gyfer y

sefydliad neu'r asiantaeth, ac unrhyw gwynion neu wybodaeth sy'n peri pryder am yr unigolyn cofrestredig a'r gwasanaethau.

Wrth asesu pob safon, yr ydym yn defnyddio pedwar datganiad i nodi'r canlyniad:

Safon wedi ei bodloni	Dim diffygion: yn cyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad.
Safon bron wedi ei bodloni	Mân ddiffygion: dim diffygion mawr a'r lefelau gofynnol o berfformiad yn ymddangos yn gyraeddadwy heb orfod cymryd camau ychwanegol o bwys.
Safon heb ei bodloni	Diffygion difrifol: angen cymryd camau sylweddol i gyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad.
Safon heb ei harolygu	Mae hyn naill ai oherwydd nad oedd y safon yn berthnasol, neu oherwydd na nodwyd unrhyw risg yn dilyn asesiad o'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y sefydliad neu'r asiantaeth neu am y sefydliad neu'r asiantaeth, ac felly penderfynwyd nad oedd angen archwilio'r safon ymhellach yn ystod yr arolygiad hwn.

## Asesiadau a Gofynion

Mae'r asesiadau wedi eu rhoi mewn grwpiau dan y penawdau canlynol, a cheir cyfeirnod ar gyfer pob safon:

- Safonau Craidd
- Safonau sy'n Benodol i'r Gwasanaeth

Talfyriadau ar gyfer y Safonau:

C = Safonau craidd

A = Safonau aciwt

MH = Safonau iechyd meddwl

H = Safonau hosbis

MC = Safonau mamolaeth

TP = Safonau terfynu beichiogrwydd

P = Safonau technegau a thechnoleg rhagnodedig

PD = Safonau meddygon preifat

Os nad yw'r unigolyn cofrestredig wedi llwyr fodloni unrhyw un o'r safonau isod, yr ydym wedi nodi ein canfyddiadau a'r camau y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliad penodol ar ddiwedd yr adroddiad. Gall methu â chydymffurfio â rheoliad fod yn drosedd. Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad yw adlewyrchu canfyddiadau'r arolygydd yn ystod y digwyddiad arolygu penodol. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser. Weithiau bydd gwasanaethau'n gwella ac weithiau byddant yn dirywio.

## Safonau Craidd

Rhif	Testun y Safon	Asesiad
C1	Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth eglur a chywir am eu triniaeth.	Safon bron wedi'i bodloni
C2	Mae'r driniaeth a'r gofal a ddarperir yn rhoi'r claf yn gyntaf.	Safon bron wedi'i bodloni
C3	Mae'r triniaethau a roddir i gleifion yn unol â chanllawiau clinigol perthnasol.	Safon wedi'i bodloni
C4	Sicrheir cleifion bod ansawdd y driniaeth a'r gofal yn cael ei fonitro.	Safon bron wedi'i bodloni
C5	Ymdrinnir â gofal terfynol a marwolaeth cleifion yn briodol ac yn sensitif.	Safon heb ei harolygu
C6	Mae'r sefydliad yn cael barn cleifion ac yn defnyddio'r wybodaeth wrth ddarparu triniaeth a gofal, ac ar gyfer darpar gleifion.	Safon wedi'i bodloni
C7	Mae polisïau a gweithdrefnau priodol wedi eu sefydlu er mwyn cynorthwyo i sicrhau ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau.	Safon bron wedi'i bodloni
C8	Sicrheir cleifion bod y sefydliad neu'r asiantaeth yn cael ei redeg/rhedeg gan sefydliad/unigolyn addas a bod llinell eglur o atebolrwydd ar gyfer darparu'r gwasanaethau	Safon wedi'i bodloni
C9	Mae cleifion yn derbyn gofal gan staff sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol.	Safon bron wedi'i bodloni
C10	Mae cleifion yn derbyn gofal gan nyrsys sydd wedi eu cofrestru'n briodol sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r arbenigedd perthnasol i ddarparu gofal i gleifion yn ddiogel ac yn effeithiol.	Safon wedi'i bodloni

Rhif	Testun y Safon	Asesiad
C11	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol.	Safon heb ei harolygu
C12	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cydymffurfio â'u codau ymarfer proffesiynol.	Safon heb ei harolygu
C13	Nid yw'r cleifion na phersonél wedi eu heintio â firysau a gludir yn y gwaed.	Safon bron wedi'i bodloni
C14	Caiff plant sy'n derbyn triniaeth eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.	Safon heb ei harolygu
C15	Caiff oedolion sy'n derbyn gofal eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.	Safon wedi'i bodloni
C16	Mae proses gwyno effeithiol ar gael i gleifion.	Safon bron wedi'i bodloni
C17	Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â sut i wneud cwyn.	Safon wedi'i bodloni
C18	Mae'n ddyletswydd ar staff a phersonél i fynegi pryderon ynglŷn ag arfer amheus neu wael.	Safon wedi'i bodloni
C19	Mae cleifion yn derbyn triniaeth mewn safle sy'n ddiogel ac yn briodol ar gyfer y driniaeth honno. Darperir amgylchedd addas i blant a dderbynnir neu sy'n mynychu'r safle i gael triniaeth.	Safon bron wedi'i bodloni
C20	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ddefnyddio offer a chyflenwadau sy'n ddiogel ac mewn cyflwr da.	Safon wedi'i bodloni
C21	Mae cleifion yn derbyn gwasanaethau arlwygo priodol.	Safon wedi'i bodloni
C22	Sicrheir cleifion, staff ac unrhyw un sy'n dod i ymweld â'r safle cofrestredig y caiff yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â'r sefydliad, y triniaethau a'r gwasanaethau eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n briodol.	Safon bron wedi'i bodloni
C23	Mae'r camau iechyd a diogelwch priodol wedi eu sefydlu.	Safon heb ei harolygu
C24	Mae camau wedi eu sefydlu i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli a'u trin yn ddiogel.	Safon wedi'i bodloni
C25	Caiff meddyginiaethau, rhwymau a nwyon meddygol eu trin mewn modd saff a diogel.	Safon wedi'i bodloni
C26	Caiff cyffuriau rheoledig eu cadw, eu rhoi a'u dinistrio yn briodol.	Safon wedi'i bodloni
C27	Mae'r risg i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal haint a gafwyd yn yr ysbyty yn cael ei lleihau cymaint â phosibl	Safon wedi'i bodloni
C28	Ni roddir triniaeth i gleifion drwy ddefnyddio dyfeisiau meddygol halogedig.	Safon wedi'i bodloni
C29	Caiff cleifion eu dadebru'n briodol ac yn effeithiol.	Safon wedi'i bodloni
C30	Mae contractau'n sicrhau bod cleifion yn derbyn nwyddau a gwasanaethau o ansawdd priodol.	Safon wedi'i bodloni

Rhif	Testun y Safon	Asesiad
C31	Caiff cofnodion eu creu, eu cynnal a'u storio i safonau sy'n bodloni cydymffuriad cyfreithiol a rheoliadol ac argymhellion arfer proffesiynol.	Safon wedi'i bodloni
C32	Sicrheir cleifion y cwblheir cofnodion iechyd yn briodol	Safon wedi'i bodloni
C33	Rhoddir sicrwydd i gleifion y rheolir yr holl wybodaeth o fewn y corff rheoledig er mwyn sicrhau cyfrinachedd cleifion.	Safon heb ei harolygu
C34	Caiff unrhyw waith ymchwil a gynhelir yn y sefydliad / asiantaeth ei gynnal gyda chaniatâd priodol y cleifion perthnasol, yn unol â chanllawiau cyhoeddedig ynglŷn â chynnal prosiectau ymchwil.	Safon heb ei harolygu

### Safonau sy'n Benodol i'r Gwasanaeth – mae'r rhain yn benodol i'r math o sefydliad a archwiliwyd

Rhif	Safonau Ysbyty Iechyd Meddwl	Asesiad
M1	Gweithio yn unol â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl.	Safon wedi'i bodloni
M2	Cyfathrebu rhwng y staff.	Safon wedi'i bodloni
M3	Cyfrinachedd cleifion.	Safon wedi'i bodloni
M4	Archwiliad clinigol.	Safon bron wedi'i bodloni
M5	Niferoedd staff a chymysgedd sgiliau.	Safon bron wedi'i bodloni
M6	Hyfforddiant staff.	Safon bron wedi'i bodloni
M7	Asesu a rheoli risgiau.	Safon bron wedi'i bodloni
M8	Atal hunanladdiad.	Safon bron wedi'i bodloni
M9	Gweithdrefnau dadebru.	Safon wedi'i bodloni
M10	Cyfrifoldeb dros wasanaethau fferyllol.	Safon wedi'i bodloni
M11	Y Dull Rhaglen Ofal / rheoli gofal.	Safon wedi'i bodloni
M12	Derbyn ac asesu.	Safon bron wedi'i odloni
M13	Y Dull Rhaglen Ofal: cynllunio ac adolygu gofal.	Safon wedi'i bodloni
M14	Gwybodaeth i gleifion am eu triniaeth.	Safon bron wedi'i bodloni

M15	Cleifion ag anableddau datblygiadol.	Safon bron wedi'i bodloni
M16	Therapi Electrogynhyfol (ECT).	Safon heb ei harolygu
M17	Rhoi meddyginiaeth.	Safon bron wedi'i bodloni
M18	Hunanfeddyginiaethu.	Safon heb ei harolygu
M19	Triniaeth ar gyfer dibyniaeth.	Safon wedi'i bodloni
M20	Trosglwyddo cleifion.	Safon wedi'i bodloni
M21	Rhyddhau cleifion.	Safon wedi'i bodloni
M22	Cofnodion cleifion.	Safon wedi'i bodloni
M23	Grymuso.	Safon wedi'i bodloni
M24	Trefniadau ymweld.	Safon wedi'i bodloni
M25	Gweithio gyda gofalwyr ac aelodau'r teulu.	Safon heb ei harolygu
M26	Arfer gwrthwahanïaethol.	Safon wedi'i bodloni
M27	Ansawdd bywyd cleifion.	Safon bron wedi'i bodloni
M28	Arian cleifion.	Safon wedi'i bodloni
M29	Cyfyngiadau a diogelwch ar gyfer cleifion.	Safon wedi'i bodloni
M30	Lefelau arsylwi.	Safon wedi'i bodloni
M31	Rheoli ymddygiad cythryblus.	Safon wedi'i bodloni
M32	Rheoli digwyddiadau difrifol/anffafriol.	Safon wedi'i bodloni
M33	Marwolaeth annisgwyl claf.	Safon heb ei harolygu
M34	Cleifion sy'n dianc.	Safon bron wedi'i bodloni
M35	Atal cleifion yn gorfforol ac ymyrraeth gorfforol.	Safon bron wedi'i bodloni
M41	Sefydliadau lle darperir triniaeth i bobl sy'n agored i gael eu cadw'n gaeth dan orchymyn – gwybodaeth i'r staff.	Safon wedi'i bodloni
M42	Hawliau cleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Safon wedi'i bodloni
M43	Gwahanu oddi wrth gleifion eraill.	Safon heb ei harolygu



M44	Absenoldeb dan Adran 17.	Safon wedi'i bodloni
M45	Absenoldeb heb ganiatâd dan Adran 18.	Safon bron wedi'i bodloni
M46	Rhyddhau cleifion a gedwir yn gaeth.	Safon wedi'i bodloni
M47	Hyfforddiant staff ar y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Safon wedi'i bodloni

## Atodlenni Gwybodaeth

Mae'r atodlenni gwybodaeth yn nodi manylion y wybodaeth y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig ei darparu, ei chadw neu ei chofnodi mewn cofnodion penodol.

Atodlen	Manylion	Asesiad
1	Gwybodaeth i'w chynnwys yn y datganiad o ddiben.	Safon wedi'i bodoli
2	Gwybodaeth ofynnol yn ymwneud ag unigolion sy'n dymuno rhedeg, rheoli neu weithio mewn sefydliad.	Safon wedi'i bodoli
3 (Rhan I)	Y cyfnod gofynnol ar gyfer cadw cofnodion meddygol.	Safon wedi'i bodoli
3 (Rhan II)	Cofnodion y mae'n rhaid eu cadw i'w harchwilio.	Safon wedi'i bodoli
4 (Rhan I)	Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi ynglŷn â chleifion sy'n derbyn gwasanaethau obstetreg.	Amherthnasol
4 (Rhan II)	Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi am blentyn a anwyd mewn ysbyty annibynnol.	Amherthnasol

## Gofynion

Mae'r gofynion isod yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 a ganfuwyd o ganlyniad i asesu'r safonau a nodir yn y golofn ar y chwith, a gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani. Cyfrifoldeb yr '*unigolyn cofrestredig*' yw'r gofynion, a chaiff yr unigolyn hwn fod naill ai'r darparwr cofrestredig neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth, yn ôl y ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gofyn i'r unigolyn cofrestredig ddarparu '*cynllun gweithredu*' yn cadarnhau sut y mae'n bwriadu cyflawni'r camau gofynnol, a bydd yr Arolygiaeth, os

oes angen, yn cymryd camau gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r rheoliad a nodwyd.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
C1	5 a 6	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Roedd angen diweddarau'r Datganiad o Ddiben a'r Canllaw Defnyddiwr Gwasanaeth i adlewyrchu'n gywir strwythur y sefydliad, a'r amrywiaeth o driniaethau a gwasanaethau eraill a ddarperir yn y sefydliad.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig lunio Datganiad o Ddiben a Chanllaw Defnyddiwr Gwasanaeth sy'n adlewyrchu'n gywir strwythur y sefydliad a'r amrywiaeth o driniaethau a gwasanaethau eraill a ddarperir yn y sefydliad.</p>	O fewn 28 diwrnod i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.
C2, M7, M14	15 (1) a (3)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Nid oedd dyddiadau adolygu ar gael ar gyfer rhai o'r cynlluniau gofal, ac nid oedd y cynlluniau hyn wedi eu llofnodi ychwaith gan y tîm amlddisgyblaethol. Yn ychwanegol, roedd diffyg tystiolaeth i ddangos bod barn y cleifion am eu gofal a'u triniaeth yn cael ei hystyried, gan gynnwys cofnodi'n llawn y drefn o roi meddyginiaeth, y sgil-ffeithiau a'r risgiau hysbys, a'u hegluro i'r cleifion.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod dyddiad adolygu yn cael ei nodi ar yr holl gynlluniau gofal, a'u bod yn cael eu llofnodi gan y tîm amlddisgyblaethol. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod barn y cleifion am eu gofal a'u triniaeth yn cael ei hystyried.</p>	O fewn 28 diwrnod i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
C4 ac M4	16 (1)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Nid oedd y rhaglenni archwilio yn cynnwys: monitro gwaith amlbroffesiynol mewn timau iechyd meddwl, monitro cyfraniadau amlbroffesiynol at gofnodion clinigol, graddau ac ansawdd y cysylltiad uniongyrchol rhwng y staff a'r cleifion, y defnydd o wybodaeth gymharol o ran canlyniadau clinigol, a gwerthuso o gymharu â chanfyddiadau gwaith ymchwil ac arfer wedi ei seilio ar dystiolaeth.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod y rhaglenni archwilio yn cynnwys: monitro gwaith amlbroffesiynol mewn timau iechyd meddwl, monitro cyfraniadau amlbroffesiynol at gofnodion clinigol, graddau ac ansawdd y cysylltiad uniongyrchol rhwng y staff a'r cleifion, y defnydd o wybodaeth gymharol o ran canlyniadau clinigol, a gwerthuso o gymharu â chanfyddiadau gwaith ymchwil ac arfer wedi ei seilio ar dystiolaeth.</p>	O fewn tri mis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.
C16, M5, M6 ac M35.	17 (2) (a)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Roedd nifer sylweddol o aelodau'r staff nad oeddent wedi dilyn hyfforddiant ar amddiffyn plant, ystyr cwyn, a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion. Yn ogystal, nid oedd y staff wedi dilyn hyfforddiant diweddar ar dechnegau ataliad ac ymyrraeth gorfforol.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn dilyn hyfforddiant ar amddiffyn plant, ystyr cwyn, a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion. Yn ogystal, mae'n rhaid i aelodau'r staff ddilyn hyfforddiant diweddar ar dechnegau ataliad ac ymyrraeth gorfforol.</p>	O fewn 28 diwrnod i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
C19 ac M8	24 (2) (a) a (b)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Nid oedd digon o le ar gael ar gyfer y cleifion yn y wardiau yn gyffredinol, ac roedd hon yn broblem arbennig ar y ward ar y llawr cyntaf. Yn ogystal, roedd angen ailaddurno, adnewyddu ac atgyweirio sawl rhan o'r sefydliad, ac nid oedd offer wedi'i osod ar y ffenestri yn y man gweithgareddau sydd newydd gael ei adnewyddu, i'w hatal rhag agor yn llawn. Roedd hefyd angen adolygu offer o'r fath ar ffenestri gweddill yr ysbyty, er mwyn sicrhau eu bod yn addas.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod digon o le ar gael ar gyfer y cleifion yn y wardiau i gyd, a bod y tu mewn i'r eiddo'n cael ei gadw mewn cyflwr da. Yn ogystal, roedd angen gosod offer ar y ffenestri yn y man gweithgareddau sydd newydd gael ei adnewyddu, i'w hatal rhag agor yn llawn, ac roedd angen adolygu'r offer a osodwyd eisoes ar y ffenestri eraill er mwyn sicrhau eu bod yn addas.</p>	Mae'n rhaid anfon cynllun gweithredu i AGIC o fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr adroddiad hwn, i nodi sut y bydd y maes hwn yn derbyn sylw, ac mae'n rhaid gweithredu'r cynllun hwn yn llawn erbyn 31 Rhagfyr 2011.
C19	24 (2) (a)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Nid oedd y ffaniau echdynnu yn gweithio yn nifer o'r tai bach, ac roedd aroglau annymunol yn amlwg yn y manau hyn.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau y cedwir y tu mewn i'r safle mewn cyflwr da. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r ffaniau echdynnu fod yn gweithio'n dda.</p>	O fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr adroddiad hwn.
C22, M7 ac M8	24 (2) (ch)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Roedd angen cynnal adolygiad brys o handlenni ffenestri'r ystafelloedd gwely a manau clymu eraill ym mhob rhan o'r ysbyty, gan gynnwys y man gweithgareddau a oedd newydd ei adnewyddu.</p>	Mae'n rhaid anfon cynllun gweithredu i AGIC o fewn 14 diwrnod i ddyddiad yr adroddiad hwn, i nodi sut

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
		<p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau nad oes peryglon i ddiogelwch y cleifion yn unrhyw ran o'r sefydliad a ddefnyddir ganddynt, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. O ganlyniad, mae'n rhaid llunio asesiad risg, a chynllun gweithredu ag amserlenni penodol ar gyfer rheoli'r risgiau a nodwyd. Rhaid hefyd sicrhau y darperir ffitiadau pwrpasol ym mhob rhan o'r ysbyty fel nad oes modd eu defnyddio fel manau clymu.</p>	<p>y bydd y maes hwn yn derbyn sylw, ac mae'n rhaid darparu ffitiadau mad oes modd eu defnyddio fel manau clymu ym mhob rhan o'r ysbyty erbyn 31 Rhagfyr 2011.</p>
C22	24 (2) (ch)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Nid oedd y troli meddyginiaeth wedi ei gysylltu wrth y wal ar ward Sylfaen.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau nad oes unrhyw beryglon yn unrhyw ran o'r sefydliad, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.</p>	<p>Yn ddi-oed ac yn barhaus.</p>
M5	17 (1) (a)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Roedd y lefelau staffio yn yr ysbyty yn annigonol ar ddechrau'r ymweliad dirybudd, gan mai dim ond un nyrs gofrestrdig, a'r rheolwr a oedd newydd ei benodi, a oedd ar ddyletswydd. O ystyried mai newydd ddechrau gweithio yn ddiweddar yr oedd y rheolwr, roedd yn siomedig nodi ei fod yn cael ei ddefnyddio i fod yn gyfrifol am ward yn absenoldeb nyrsys cofrestredig. Roedd yn ymddangos hefyd fod diffyg cyfraniad ym maes seicoleg, therapi galwedigaethol a gwaith cymdeithasol ar gyfer cleifion yn y sefydliad.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod niferoedd digonol o staff ar gael, fel sy'n briodol ar gyfer anghenion iechyd a lles y cleifion.</p>	<p>Yn ddi-oed ac yn barhaus.</p>

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
M12 ac M15	15 (1)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Nid oedd y dogfennau ynglŷn ag archwiliadau iechyd blynyddol yn gyflawn ar gyfer un claf.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer lles y cleifion.</p>	Yn ddi-oed ac yn barhaus.
M34	24 (2) (ch)	<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Nid oedd yr ardd y tu allan yn darparu man diogel fel sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r safonau ar gyfer llety diogelwch isel.</p> <p><b>Camau Gweithredu</b></p> <p>Mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod yr ardd ddiogel yn bodloni'r safonau priodol ar gyfer llety diogelwch isel.</p>	Mae'n rhaid anfon cynllun gweithredu i AGIC o fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr adroddiad hwn, i nodi sut y bydd y maes hwn yn derbyn sylw, ac mae'n rhaid gweithredu'r cynllun hwn yn llawn erbyn 31 Rhagfyr 2011.

## Argymhellion

Gall argymhellion fod yn berthnasol i agweddau ar y safonau neu i ganllawiau cenedlaethol. Fe'u gwneir er mwyn i'r unigolion cofrestredig eu hystyried ond ni chânt eu gorfodi yn gyffredinol.

Safon	Argymhelliad
C7, C9 ac M45	Dylai pob aelod o'r staff, gan gynnwys yr ymarferwyr meddygol, ddarllen y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w maes gwaith hwy, a llofnodi datganiad i'r perwyl hwn.
C13	Dylai pob aelod o'r staff gael brechiad yn erbyn firysau a gludir yn y gwaed.
M17	Dylai'r rhagnodwr lofnodi'r holl nodiadau sydd yn y cofnodion meddyginiaeth.
M27	Dylai'r cyfleusterau oeri dŵr fod ar gael yn rhwydd i'r cleifion.
M35	Dylai ffurflenni atal/ymyrraeth gorfforol y cleifion gael eu llofnodi gan y rheolwr er mwyn cadarnhau bod adolygiad cychwynnol wedi ei gynnal.

Diben bodolaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw hybu gwelliant mewn iechyd a gofal iechyd. Mae gennym ddyletswydd statudol i asesu perfformiad sefydliadau gofal iechyd ar gyfer y GIG, a chydgysylltu adolygiadau gofal iechyd gan eraill. Wrth wneud hyn, ein nod yw lleihau'r baich rheoliadol ar sefydliadau gofal iechyd a chydweddu asesiadau gofal iechyd a ddarperir gan y GIG ag asesiadau'r sector annibynnol (preifat a gwirfoddol).

Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod nad yw ar gyfer adwerthiant masnachol. Dim ond yn ei gyfanrwydd y ceir atgynhyrchu'r adroddiad hwn. Ni cheir ei atgynhyrchu'n rhannol nac ar ffurf gryno ac ni cheir dyfynnu ohono heb ganiatâd ysgrifenedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r caniatâd hwn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn gywir, ac ar yr amod nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn modd niweidiol na chyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod mai © 2011 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r deunydd, gan nodi teitl y ddogfen. Dylai ceisiadau ar gyfer atgynhyrchu fod yn ysgrifenedig a dylid eu hanfon at: Y Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Tŷ Bevan, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3ED.